PARC CENEDLAETHOL
Bannau Brycheiniog
Lle i enaid gael llonydd



# gweithredu dros dwristiaeth

Twristiaeth gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog





## Yn y rhifyn hwn

COLLABOR8

Graddedigion y Cynllun Llysgenhadon

Y diweddaraf am y Clystyrau

Digwyddiadau celf newydd



Twristiaeth Bannau Brycheiniog ar waith

Cymeradwyaeth frenhinol i'r wŷl ddefaid

Gwyliau Cerdded

## Busnesau'n ateb y galw i 'COLLABOR8-io'

### Effaith y prosiect yn cael ei theimlo dros y Parc Cenedlaethol

**Mae COLLABOR8 wedi cyflwyno ffordd hollol newydd o weithio ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae 15 o glystyrau o fusnesau twristiaeth wedi cael eu cefnogi gyda phob math o bobl yn cymryd rhan. Gyda'i gilydd maent wedi cyfrannu'n aruthrol i ddatblygu twristiaeth yn eu hardal. O arbenigwyr beicio mynydd i dafarnau glan y gamlas, rheolwyr tai bynciau i drefnwyr teithiau cerdded a gwyliau, mae dylanwad COLLABOR8 ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn bellgyrhaeddol yn ystod tair blynedd ei bodolaeth.**

Mae ei dentaclau wedi ymestyn o grwpiau bach mewn pentrefi i sefydliadau mawr megis Twristiaeth Bannau Brycheiniog, i gyd gyda'r un nod, sef helpu busnesau i gydweithio er mwyn cyflawni amcanion cyffredin. Ar y ffordd maent wedi cynhyrchu rhai digwyddiadau, gwefannau a deunyddiau printiedig ardderchog i helpu ymwelwyr i gael mwy byth o'u hamser yn y Parc.

Y syniad y tu ôl i brosiect COLLABOR8, a ariennir 50% gan Raglen Interreg IVB Gogledd Orllewin Ewrop, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (CDRhE), oedd dod â busnesau'n ynghyd - wedi'u grwpio yn ôl math neu leoliad y busnes - i wella profiad ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol.

"Mae angen i Fannau Brycheiniog fel cyrchfan gystadlu â rhannau eraill o'r DU fel Cernyw ac Ardal y Llynnoedd. Ein neges oedd, 'Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd'," meddai Richard Tyler, Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. "Roedden ni am gael pobl i ganolbwyntio ar hynny, yn hytrach na chystadlu â'i gilydd. Po fwya y cydweithrediad rhwng busnesau, gorau i gyd fydd hi i ymwelwyr a thebyca i gyd y dôn nhw'n eu holau. Hefyd, wrth reswm, mwya yn y byd o daflenni a mapiau gwefannau sydd ar gael, hawsa yn y byd y bydd twristiaid yn ffeindio eu ffordd o gwmpas i wario eu harian mewn busnesau eraill yn y Parc Cenedlaethol," ychwanegodd.

Parhad drosodd...

## Y prosiect yn ôl y niferoedd

**15**
o glystyrau o fusnesau twristiaeth yn cael eu cynnal a'u datblygu

**8**
panel dehongli newydd wedi'u comisiynu

**9**
gwefan newydd ar-lein

**12**
o lwybrau cerdded newydd wedi'u mapio a'u hyrwyddo

**5**
gŵyl newydd wedi'u creu

**54**
o ddiwrnodau hyfforddiant wedi'u trefnu ar gyfer Llysgenhadon y Parc Cenedlaethol

**86**
o Lysgenhadon newydd wedi'u creu

**27**
o ddarparwyr newydd o dan y Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd (CBTW)

**11**
o fusnesau yn aros am ardystio CBTW

**1,000oedd**
o daflenni wedi'u hargraffu ar gyfer llwybrau cerdded, canllawiau 'ar gip', darparwyr gweithgareddau ac yn y blaen






## Bydd twristiaeth yn 'parhau i elwa ar gynhysgaeth y cynllun'

**Mae'r cynllun tair blynedd i ddod i ben ym mis Mehefin 2012 ond bydd ei effaith yn byw o hyd yn y ffyrdd newydd o weithio y mae busnesau wedi'u dysgu, yn ogystal â'r gwefannau, y llwybrau cerdded a'r gwyliau mae wedi esgor arnynt.**

Mae miloedd o daflenni a gyhoeddwyd â chymorth COLLABOR8 wedi cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – weithiau gyda chanlyniadau annisgwyl. Yn eglwysi Llan-gors a Llangasty sy'n cael eu cynnwys ar y daith gerdded 'Bwlch gydag Agwedd', mae'r llyfrau ymwelwyr yn dangos bod teithwyr dewr o'r Almaen, India, Japan a hyd yn oed Hawaii wedi galw heibio i gael gwybod am hanes yr eglwysi wrth wneud y gylchdaith. Cytunodd yr holl glystyrau ar god ymarfer a ysgrifennwyd ganddynt yn unigol ond a olygai fod y busnesau dan sylw yn ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd, ymdeimlad â lle ac ansawdd. Mae'r priodweddau hyn wedi ymdreiddio i'w holl waith, ar wahân a chyda'i gilydd. "Mae Bannau Brycheiniog yn ymwneud â rhoi i ymwelwyr brofiad dilys o ansawdd da sy'n seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd cadarn," meddai Richard Tyler. "Mae COLLABOR8 wedi annog pawb i weithio yn yr un cyfeiriad, gan amlygu brand y cyrchfan yn eu holl waith. Rydyn ni'n siŵr y bydd busnesau am barhau'r ffordd hon o weithio yn y dyfodol a bydd y cyfeillgarwch a ffurfiwyd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol â'n partneriaid yn ffynnu ar ffurf llawer mwy o brosiectau. Mae COLLABOR8 wedi gadael cynhysgaeth ardderchog i dwristiaeth yn yr ardal hon."

## Lysgennad, rydych yn ein sbwylio…

**Rhan allweddol arall o gynllun COLLABOR8 oedd cynllun Llysgenhadon y Parc Cenedlaethol. Mae pobl sy'n rhedeg busnesau yn y Parc yn derbyn hyfforddiant dwys i ddysgu am ddaearyddiaeth, daeareg, hanes a bioamrywiaeth yr ardal – ar ben cael gwybod am syniadau ynglŷn â beth i'w wneud y gallant eu cymeradwyo i westeion neu gwsmeriaid.**

Erbyn hyn mae 86 o gynrychiolwyr amrywiaeth eang o fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth wedi derbyn y teitl Llysgennad ac mae'r rhaglen yn dal i fynd. Mae dros 50 diwrnod o hyfforddiant wedi'u cynnal er 2009.

"Gwefreiddiol i ni oedd nifer y bobl sydd wedi bod yn barod i roi o'u hamser, naill ai i ddod yn Llysgenhadon neu i gymryd rhan mewn clystyrau neu i wneud eu busnesau'n fwy cynaliadwy," meddai Richard. "Mae pawb sydd wedi cyfranogi wedi gweld gwerth y cynllun. Fel Awdurdod Parc Cenedlaethol rydyn ni yma i helpu i hybu cadwraeth y dirwedd a helpu pobl i ddeall a mwynhau'r lle prydferth hwn. Mae busnesau twristiaeth yn rhan o'r un gêm, felly mae wedi bod yn bartneriaeth wych.

"Ein gobaith yw y bydd y gwaith rydyn ni wedi ei wneud dros y tair blynedd diwetha'n parhau i ychwanegu at enw da'r ardal fel cyrchfan anhepgor i bawb yn y dyfodol. Rydyn ni'n edrych i'r tymor hir ac yn disgwyl gweld effaith hirhoedlog."



## Graddedigion y Cynllun Llysgenhadon yn taenu'r gair

**Mae rhai Llysgenhadon yn cael y lwc i gyd. Cafodd perchenogion busnesau twristiaeth sydd wedi ymgofrestru i fod yn Llysgenhadon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog eu sbwylio'n ddiweddar gyda noson o fwyd a hwyl ym Mhlas Buckland, Bwlch.**

A'i rieni'n symud i fyw o Lundain i fferm yng Nghwm-du pan oedd yn ifanc, bu'r awdur a'r newyddiadurwr Horatio Clare yn siarad yn ysbrydoledig am ei fro fabwysiedig. Ers y noson, mae Horatio wedi cytuno i fod yn noddwr y Llysgenhadon. Ers i'r cynllun ddechrau yn 2010, diolch i gyllid COLLABOR8, mae 139 o Lysgenhadon wedi 'graddio' o'r cynllun sy'n rhoi tri diwrnod o hyfforddiant dwys iddynt yn ystod y flwyddyn yn ogystal â theithiau a digwyddiadau i ychwanegu at eu gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol.

Carol Williams, swyddog twristiaeth gynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n gyfrifol am drefnu hyfforddiant a digwyddiadau i'r Llysgenhadon. Yn ôl Carol: "Mae'r hyfforddiant yn taflu goleuni ar agweddau ar y Parc efallai fydden nhw ddim wedi'i brofi fel arall. Yn aml, mae pobl sy'n rhedeg busnesau twristiaeth yma wedi dod o'r tu allan i'r ardal, felly dydyn nhw ddim o anghenraid yn gyfarwydd â manylion ei hanes na'r ddaeareg na'r fioamrywiaeth sydd i'w cael yma.

"Hefyd, fel arfer maen nhw mor brysur yn rhedeg eu busnesau dydyn nhw ddim yn cael y cyfle i ddod i nabod y Parc go iawn a chael gwybod am fusnesau eraill yn yr ardal. Rydyn ni'n cynnig y cyfle iddyn nhw i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r Parc a'r gweithgareddau y gallant eu cymeradwyo i'w cwsmeriaid."

Roedd Gwen Jones, sy'n rheoli gwersyllfa a gwely a brecwast yn Llanfihangel Crucornau ger y Fenni yn cytuno: "Mae'n rhoi darlun cliriach o'r ardal y gallwch ei basio ymlaen i ymwelwyr. Os ydych wedi bod yma ers meitin rydych chi'n nabod ardaloedd ond efallai dim byd am eu hanes nhw. Mae hefyd yn ddiddorol cael gwybod sut mae pobl eraill yn dehongli'r ardal i'w gwesteion. Cynllun gwych yw e yn fy marn i, dw i'n gobeithio y bydd yn cadw i fynd," ychwanegodd.

Yn ogystal â thridiau o hyfforddiant, trefnir ymweliadau arbennig i Lysgenhadon iddynt gael ymgynefino â lleoedd neu weithgareddau - un enghraifft ddiweddar oedd mynd ar gwrs geogelcio.

Ac, wrth gwrs, mae digwyddiadau a hyfforddiant yn darparu cyfleoedd rhwydweithio da i gyfranogwyr. Maent hefyd yn cael eu rhestru a darperir dolen â'u gwefannau ar dudalen y Llysgenhadon ar wefan Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. "Yn bendant, rydyn ni'n meddwl eu bod nhw'n dod oddi yno gyda mwy o frwdfrydedd a gwybodaeth. Weithiau pan fydd dy drwyn wrth y maen ym myd twristiaeth mae'n anodd gweld harddwch a gwerth y Parc Cenedlaethol cyfan," meddai Carol.

## Y Fenni'n datblygu llwybr o gwmpas y dre

**Nid newydd-ddyfodiad i'r gêm dwristiaeth mo'r Fenni. Mae cymdeithas dwristiaeth yn y dre ers 30 mlynedd, ond mae hyd yn oed cyrchfannau sefydledig angen help weithiau i godi eu proffil, fel yr eglurodd Gwen Jones o'r gymdeithas.**

"Dros y blynyddoedd yn Sir Fynwy, rydyn ni wedi dibynnu ar Ddyffryn Gwy a Dyffryn Wysg ond nid dyna ein marchnad ni. Mae ein hymwelwyr yn chwilio am lety gwely a brecwast, pethau i'w gwneud yn y Mynydd Du ac, yn ddiweddar, fwyd gwych. "Roedd angen strategaeth newydd i ddweud wrth bobl am bethau i'w gwneud yn yr ardal hon i sicrhau eu bod yn dod yn ôl o hyd," meddai Gwen.

Gyda help COLLABOR8 tynnodd y grŵp sylw at atyniadau lleol a oedd i raddau'n cael eu hanghofio.

"Buon ni'n datblygu llwybr hanesyddol o gwmpas y dre a theithiau chwe diwrnod ar gyfer ymwelwyr dydd neu bobl sy'n aros yn yr ardal," meddai Gwen. Hefyd, comisiynwyd ffotograffau newydd o olygfeydd yr ardal a thalodd COLLABOR8 am ddylunydd i ddatblygu logo twristiaeth ac is-bennawd bachog newydd i'r Fenni - cyn hynny roedden nhw wedi defnyddio logo cyngor y dref.

Yn ogystal, datblygodd y dylunydd gyfres o bosteri ar gyfer gorsafoedd Trenau Arriva ar hyd y rheilffordd o Gasnewydd i Crewe sy'n mynd drwy'r dre.

Mae taflen y llwybr hanes wedi bod yn llwyddiant ysgubol - mae'r grŵp yn ailarchebu ar ôl i'w argraffiad cyntaf o 500 o gopïau ddiflannu fel slecs.

Yn ôl Gwen: "Wrth gwrs mae cael cyllid yn fuddiol – ond os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r arian, mae cael rhywun i'ch rhoi chi ar ben ffordd yn hollol wych.

"Mae'r deunyddiau marchnata newydd wir wedi rhoi hwb i ni a dw i'n siŵr bod ein ffocws newydd yn rhan o'r rheswm pam mae ein haelodaeth wedi cynyddu er gwaetha'r hinsawdd economaidd."



## Bwlch yn hoelio llygad y cyhoedd

**Yn sefyll ar yr A49 mewn bwlch rhwng dau fryn, lle y mae pobl yn pasio'n syth drwyddo yw'r Bwlch. Ond nid yw hyn wedi mennu dim ar ysbryd y Bwlch.**

A dweud y gwir, mae bellach yn denu pobl o mor bell i ffwrdd â Japan a Hawaii i ymweld â'i eglwysi gan gamu allan ar gyfres o dair cylchdaith sy'n cychwyn ac yn gorffen yn y pentre. Enw un o'r teithiau, yn ddigon priodol, yw Bwlch gydag Agwedd – O Amgylch y Bwlch a Bwlch gyda Mawredd yw'r lleill.

Bu Rhys Champion, sydd biau hostel y *Beacons Backpackers* a thafarn y *New Inn* yn y pentre yn egluro: "Mae'r taflenni rydyn ni wedi'u datblygu gyda chymorth COLLABOR8 yn rhoi cyfle i bobl sy'n aros yn y pentre i wneud cylchdaith ysblennydd heb angen car hyd yn oed."

Datblygwyd y teithiau cerdded ar y cyd ag aelodau'r clwstwr a fu'n cynnwys ficer yr eglwysi yn y Blwch, Llan-gors a Llangasty, Alan Jevons.

"Y syniad oedd cynnwys yr eglwysi ar y daith Bwlch gydag Agwedd i geisio cynyddu nifer yr ymwelwyr.

"Yn ogystal â thaflenni a gwefan ar gyfer y teithiau cawson ni arian i greu byrddau dehongli am hanes yr eglwysi i gerddwyr sy'n galw heibio," meddai Alan.

Mae nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r eglwysi wedi cynyddu - bydd stoc o fariau egni a photeli dŵr sy'n cael eu gadael gan blwyfolion ar gyfer cerddwyr yn diflannu'n fuan.

Mae llyfrau ymwelwyr hefyd yn rhoi awgrym ynglŷn â nifer y bobl sy'n galw heibio - ac o le maent wedi dod. "Weithiau mae'n teimlo fel pe bai'r byd a'i fam wedi dod drwy'r drysau," meddai Alan dan chwerthin.

Ychwanegodd Rhys Champion: "Mae Bwlch gydag Agwedd wedi dod yn daith gerdded reit adnabyddus. Iawn, dydy hi ddim mor enwog â Phen y Fan ond mae pobl yn cael eu swyno gan yr enw – a'r golygfeydd."

Yn ôl Rhys, mae'n anfon rhwng 20 a 40 o gerddwyr yr wythnos ar un o deithiau cerdded y Bwlch – ac mae'n denu busnes newydd i'r ardal.

"O safbwynt y gymuned, mwya o bobl sy'n dod yma i gerdded, gorau i gyd yw hi ar fusnesau lleol eraill," ychwanegodd. "Mae pawb ar ei ennill."




## Neges y clwstwr gwyrdd: 'Mae mynd yn wyrdd yn synhwyrol o safbwynt busnes'

**Ochr yn ochr â chreu Llysgenhadon twristiaeth, prif raglen arall COLLABOR8 fu datblygu clwstwr twristiaeth werdd gyda busnesau'n cydweithio i gyflawni hynny.**

Roedd Liz Matthews wedi rhedeg ei busnes bythynnod gwyliau yng ngorllewin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel busnes gwyrdd er 1999. Ond daeth yr ymgyrch i ddarbwyllo mwy o fusnesau twristiaeth i ddilyn ôl traed Liz ar union yr adeg iawn iddi. Roedd Liz, sy'n rhedeg Bythynnod Aberhyddnant o'i chartref yn fferm Aberhyddnant yng Nghrai, wrthi'n ailddatblygu ei gwefan. "Rydyn ni wedi bod yn wyrdd ers ychydig o flynyddoedd erbyn hyn ond allwch chi ddim llaesu dwylo," meddai Liz ac erbyn hyn mae ei busnes wedi ennill un o wobrau aur y Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd (CBTW). "Mae 'na syniadau newydd yn dod i'r fei drwy'r amser y byddech yn eu colli pe na baech chi'n rhan o'r rhwydwaith gwyrdd," esboniodd. Ar ôl mynychu gweithdy busnes gwyrdd a ariannwyd gan COLLABOR8 yng Nghanolfan y Parc Cenedlaethol yn Libanus, aeth hi adre ac yn syth bin ychwanegu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a diwrnodau heb y car at ei gwefan. Ers hynny, mae wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer perchenogion busnesau gwyrdd sydd wedi cofrestru ar gyfer y CBTW a hyrwyddir gan COLLABOR8.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf iddo gael ei gyllido – pryd talodd COLLABOR8 i fusnesau gael eu hardystio – cofrestrodd 16 o fusnesau twristiaeth yn y Parc â'r CBTW. Erbyn 2010-11 roedd hyn wedi cynyddu i 21 o fusnesau twristiaeth. Hyd yn hyn yn 2011-12 mae 27 o newydd-ddyfodiaid i'r CBTW (saith enillydd aur) a 11 sy'n debyg o gael eu hardystio.

Mae COLLABOR8 wedi talu am daflen am wyliau gwyrddach yn y Parc Cenedlaethol, canllaw 'Bannau Brycheiniog fel cyrchfan cynaliadwy' ar wefan y Green Traveller – ac i roi cwmnïau ar restr y CBTW ar yr un wefan.

Eleni mae pwyslais y grŵp wedi symud tuag at helpu busnesau i weld bod mynd yn wyrdd yn synhwyrol o safbwynt busnes -gyda gweithdai'n cael eu cydgysylltu gan yr ymgynghorydd Barbara Grantham a ariennir gan COLLABOR8 a Croeso Cymru. Cynhelir tri chwrs sydd wedi'u hanelu at fusnesau lletygarwch, atyniadau a busnesau hunanarlwyo i egluro pam mae mynd yn wyrdd yn dda i fusnes.

"Mae'n ymwneud â chefnogi'n gilydd. Ers ymuno â'r grŵp dw i wedi cwrdd â dyn ym Myddfai a fe bellach sy'n cyflenwi sebon i fy holl fythynnod hunanarlwyo," meddai Liz. "Nid yn unig ei bod yn well i'r economi leol ond mae'n haws o lawer i'r busnes. Os oes problem ac mae eich archeb yn hwyr gallwch bicio draw i'w nôl!" Mae wedi codi cynghorion eraill drwy rwydweithio â'i chydweithwyr twristiaeth werdd hefyd. "Efallai eich bod yn credu'ch bo' chi eisoes yn wyrdd ac yn gwneud yn wych," ychwanegodd, "ond os heb fynychu'r grŵp mae'n bosibl eich bod chi'n gwneud camgymeriadau mae pobl eraill wedi'u datrys yn barod ."




# Gŵyl ddefaid yn cael sêl bendith frenhinol

**Pan ddaeth grŵp o fusnesau Llanymddyfri at ei gilydd yn 2009 i roi eu tref ar y map roedd angen thema arnynt i uno masnachwyr a grwpiau eraill yn y dref.**

Trwy gyd-ddigwyddiad, ar ddechrau 2010, lansiwyd y Prosiect Gwlân gan Dywysog Cymru, sydd biau fferm a stad 191 erw Llwynywermod ym Myddfai ger Llanymddyfri, er mwyn hyrwyddo'r diwydiant gwlân cynaliadwy.

Roedd wedi gwahodd pedwar aelod o Siambr Fasnach newydd Llanymddyfri i de i siarad am y prosiect a chenhedlwyd egin syniad i gysylltu Llanymddyfri â gwlân – a defaid.

Wedi'r cwbl gwlad ffermio defaid yw hon ac mae'r dre yn gartref i farchnad bridiau prin ac yn sefyll ar un o hen ffyrdd y porthmyn o'r gorllewin.

Ar yr un pryd, dyma COLLABOR8 yn cyrraedd gan gynnig helpu i hybu twristiaeth y dre ac ariannu cynllun gweithredu twristiaeth gynaliadwy.

Eglurodd Fiona Walker, un o aelodau gwreiddiol y siambr fasnach, beth ddigwyddodd nesa: "Cynhaliodd COLLABOR8 sawl gweithdy lle penderfynon ni ar frand i Lanymddyfri - Caru Llanymddyfri - ac roedden nhw'n gallu ein helpu i fireinio'r syniad o gysylltu'r dre â'i diwydiant ffermio defaid.

"Ar ben hynny, dyma COLLABOR8 yn cyflwyno dyn o'r *Yorkshire Dales* lle cynhelir gŵyl ddefaid a chydiodd pawb yn y syniad. Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â Phrosiect Gwlân y Tywysog," esboniodd. Cyn troi rownd, roedd Gŵyl Ddefaid ar y gweill - gyda'r un gyntaf yn ei chynnal yn 2010. Fiona oedd cydgysylltydd y digwyddiad: "Roedd thema'r defaid yn ein helpu i gysylltu â'r gymuned amaethyddol."

Ariannwyd gwefan am yr ŵyl gan COLLABOR8 a dalodd hefyd am ddeunyddiau marchnata i helpu i roi'r ŵyl gyntaf ar waith. Ei noddwr oedd y Tywysog Charles.

"Yn sydyn roedd pawb yn siarad amdani ac yn cymryd rhan. Roedd pobl yn siarad am 'Ein Gŵyl Ddefaid Ni'," meddai Fiona. "Buon ni'n cynnwys y ffermwyr ifainc – fel arweinwyr – a chymeron ni ran yn y sioe ffasiwn. Ac fe'i cynhaliwyd ar benwythnos i gyd-ddigwydd ag arwerthiant bridiau (defaid) lliwiedig prin y DU."

Yn 2011 roedd yr ŵyl yn fwy ac yn well. Bu'n cynnwys treialon cŵn defaid, arddangosiadau cneifio defaid yn ogystal â stondinau bwyd, stondinau masnachwyr ac adrodd straeon. "Dydyn ni ddim yn byw mewn amserau hawdd ac mae'r ŵyl yn bendant wedi helpu," meddai Fiona, sy'n rhedeg caffi rhyngrwyd y *Red Giraffe*. "Mae yna fwy o falchder yn y dre. Rydyn ni'n gwybod erbyn mis Medi y bydd y dre'n fwrlwm ac o dan ei sang. Mae pobl wedi dod yn ffrindiau ac mae wedi helpu i dynnu'r gymuned at ei gilydd!" ychwanegodd.

***Cynhelir Gŵyl Ddefaid 2012 29-30 Medi.**

COLLABOR8

## Llwybrau Talgarth yn cael eu traed danynt!

**Dair blynedd yn ôl roedd Talgarth yn cynnig digon o leoedd i aros – ond dim o anghenraid ddigon o bethau i ymwelwyr eu gwneud ar stepen y drws.**

Newidiodd hynny i gyd diolch i'r ysgogiad gan COLLABOR8. Roedd grŵp lleol o 18-20 o berchenogion busnesau twristiaeth yn bennaf yn dechrau amau efallai fod y dre'n colli tric. Bu cynllun gweithredu twristiaeth gynaliadwy yn dangos y ffordd ymlaen - roedd teithiau cerdded a beicio gwych y gellid eu gwneud yn y dre a'r cylch heb fod rhaid i dwristiaid grwydro ymhell.

Roedd Joyce Shaw, sy'n rhedeg gwely a brecwast pum seren ar gyrion Talgarth, yn rhan o'r clwstwr:

"Dyna i gyd oedd gyda ni yn y ganolfan groeso oedd taflen wedi'i llungopïo – a doedd hi ddim yn edrych yn broffesiynol iawn," meddai. "Roedden ni'n teimlo bod cymaint mwy gyda ni i'w gynnig."

Gyda hyn mewn golwg, datblygwyd cyfres o deithiau cerdded yn Nhalgarth a'r cylch - talodd COLLABOR8 am ddylunio ac argraffu'r taflenni yn ogystal â gwefan.

Mae un o'r teithiau, at Bwll-y-Wrach, wedi ysbrydoli digwyddiad blynyddol hyd yn oed – cylchdaith 8 milltir gyda chwis ar y ffordd. Hefyd, mae ymgeiswyr yn cael selsig a stwnsh tatws am ddim yng Ngwesty'r Tŵr yn y dre.

Mae taflen arall a ddatblygwyd gan y Grŵp yn egluro hanes y dre gyda map. Ac mae taflen Blas Talgarth hefyd wedi'i datblygu diolch i COLLABOR8. " Mae wedi gweithio'n dda iawn yn fy marn i," meddai Joyce.

## Llanymddyfri'n ôl y niferoedd

**45%** mai'r ŵyl oedd eu prif reswm am ymweld â'r ardal

**68%** o ymwelwyr oedd â phlant 10 marc allan o 10 i'r ŵyl

**96%** o ymwelwyr y byddent yn cymeradwyo'r ŵyl i ffrindiau

**92%** o fusnesau eu bod wedi elwa ar yr ŵyl

*** Ffigurau o'r arolwg ar ôl yr ŵyl Ddefaid gyntaf yn 2010 gan y *Research Solution***

## Llwybrau celf yn ôl y niferoedd

### Crucywel

**162** darn o waith o dan £100 wedi'u gwerthu

**42%** o'r arddangoswyr rhwng 100 a 200 o ymwelwyr

**86%** fod cymryd rhan yn y Llwybr Celf yn brofiad gwerth chweil

**25%** o'r gwaith am bris rhwng £250 a £500

### Aberhonddu

**7** diwrnod llawn o ddigwyddiadau celfyddydol

**90** yn bresennol yng ngweithdai Brandio Aberhonddu

**20** diwrnod o amser cydgysylltydd

**90** o fyrddau celf gan y cyhoedd

*Ffigurau o adroddiad effaith economaidd yn 2011 gan y *The Research Solution*

## Tal-y-bont yn ei rhoi ei hun ar y map twristaidd

**Mae uchelgeisiau mawr gan bentre bach Tal-y-bont ar Wysg ac mae eisoes wedi codi'i proffil, diolch i gyllid gan COLLABOR8.**

Cafodd grŵp ei ffurfio ar ôl i ddwy ddynes fusnes leol gyfarfod mewn cynhadledd dwristiaeth a drefnwyd i Lysgenhadon Bannau Brycheiniog ym mis Hydref 2011.
"Oherwydd ein bod yn clywed beth mae grwpiau twristiaeth eraill yn y DU yn ei wneud, cododd y syniad o ffurfio grŵp i Dal-y-bont," esboniodd Anna Bell sy'n cadw'r Star Inn yn y pentre. Ar y cyd â Ceri Chapman o Oriel Tŷ Cam, sefydlodd grŵp Tal-y-bont gan wahodd pob busnes twristiaeth yn y pentre i gymryd rhan.
Talodd COLLABOR8 am ymgynghorydd twristiaeth a chynllun gweithredu twristiaeth gynaliadwy – phenderfynodd y grŵp gomisiynu hysbysfwrdd i ymwelwyr fel y cam cyntaf.
Yn ôl Anna: "Fel busnesau rydyn ni eisiau dangos i bobl nad oes raid iddyn nhw fynd i'w ceir a gyrru i ffwrdd o'r pentre i gael teithiau cerdded neu seiclo bendigedig."




# Digwyddiadau celf newydd yn cael eu creu yng Nghrucywel ac Aberhonddu

**Eleni, gwelir Llwybr Celf Crucywel, a drefnir ar y cyd gan glwstwr Crucywel a Chanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crucywel (CRIC), yn cychwyn ar ei phedwaredd flwyddyn. O fesen fach yn 2009, pan ddaeth 10 artist ynghyd i ddangos eu gwaith, mae wedi tyfu'n ddigwyddiad gyda mwy na 75 o bobl grefft ac artistiaid yn cymryd rhan.**

Wedi mynd y mae'r daflen llwybr celf wedi'i gwneud gartref a'i llungopïo. Erbyn hyn mae'r llwybr mor helaeth mae'r llyfryn am y digwyddiad wedi tyfu'n 60 tudalen o hyd. nAc erbyn hyn mae wedi hen sefydlu yn y calendr twristiaeth, er budd yr holl fusnesau twristiaeth lleol, yn ôl y trefnydd Suzette Patten sy'n gweithio yn y Ganolfan Adnoddau.
"Roedden ni am godi proffil artistiaid sy'n gweithio yn yr ardal – a gosod ein horiel yn y Ganolfan ar y map," meddai. "Ar y dechrau, rhyw ddigwyddiad cartref bach bach oedd e. Dim ond pan gawson ni gyllid COLLABOR8 roedden ni'n gallu ei ehangu a threfnu sioe go iawn i arddangos ansawdd y gelf sydd ar gael yn yr ardal." Galluogwyd Suzette gan gyllid COLLABOR8 i gomisiynu yn y lle cyntaf fap A3 dwy ochr am y llwybr ac yna llyfryn gwybodaeth safonol. Gallodd hefyd drefnu ffotograffydd i dynnu lluniau o'r artistiaid wrth eu gwaith dros dridiau.
Mae wedi troi'r lluniau'n arddangosfa deithiol am y Llwybr Celf i greu cyhoeddusrwydd cyn y digwyddiad. Bydd y Llwybr eleni'n cael ei lansio gyda'r arddangosfa ffotograffau yng Nghwrt Tretwr cyn teithio o gwmpas y Parc,

## Fideo'n rhoi hwb i'r digwyddiad

Defnyddiwyd peth o'r cyllid hefyd i greu fideo am y digwyddiad ac i drefnu bws i artistiaid ymweld â chanolfannau ei gilydd cyn penwythnos y llwybr. Mae'r llwybr bellach yn ymestyn o Dalgarth i Dal-y-bont, Llangynidr i Grucywel ac ymlaen i ardal y Fenni. Ymhlith yr artistiaid sy'n cymryd rhan ceir cerflunwyr, dylunwyr tecstiliau, gwneuthurwyr gwydr, gwneuthurwyr gemwaith, darlunwyr, seiri dodrefn yn ogystal â pheintwyr.
Bydd artistiaid yn agor eu stiwdios, orielau ac mewn rhai achosion eu cartrefi i groesawu ymwelwyr – a phrynwyr. "Mae wedi golygu llawer iawn mwy'n economaidd na bu rhai o'r artistiaid yn ei ddisgwyl, dwi'n credu," meddai Suzette. "Derbyniodd rhai ohonyn nhw gomisiynau a gallodd llawer ohonyn nhw gael cyhoeddusrwydd da yn y wasg am y llwybr hefyd," ychwanegodd.
Mae ffocws y llwybr ar Grucywel wedi bod yn llesol i fusnesau yn y dre hefyd. Yn 2011 cynigiodd llawer o siopau ofod yn eu ffenestri i arddangos celf cyn y digwyddiad. Y llynedd roedd yna gymaint o fwrlwm – roedd yr holl bobl 'ma'n crwydro o gwmpas gyda thaflenni'r llwybr, yn cael hyd i'r gwahanol stiwdios yng Nghrucywel," meddai Suzette. Gwelodd yr Oriel yn y Ganolfan 750 o ymwelwyr



mewn tridiau yn ystod gŵyl 2011 – llam mawr ymlaen o'u cymharu â niferoedd yr ymwelwyr ar gyfartaledd yn ystod yr haf (tua 50 y dydd).
Talodd COLLABOR8 hefyd am arolwg effaith economaidd yn 2011 (gweler ar y chwith). Mae'r llwybr wedi mynd mor llwyddiannus, er bod cyllid COLLABOR8 yn dod i ben, tanysgrifiadau busnes bellach fydd yn talu am y llyfryn. Yn ôl Suzette; "Ar hyn o bryd, bonws yn bennaf yw'r llwybr i dwristiaid sydd eisoes yn yr ardal. Mae'n digwydd ar yr un pryd â Gŵyl y Gelli felly mae'n rhywbeth arall i'w wneud. Ond wrth iddo ennill ei blwy, bydd yr agwedd dwristiaeth yn parhau i dyfu a'r gobaith yw y bydd, yn y pen draw, yr un maint ag Wythnos Gelf Swydd Henffordd."

## Gŵyl gelf Aberhonddu yn taro tant

**Weithiau y syniadau symla mewn bywyd yw'r rhai gorau – fel a ddarganfu trefnwyr Gŵyl Gelfyddydau Aberhonddu yn ystod ail flwyddyn y digwyddiad y llynedd (2011).**

Un o atyniadau mwyaf poblogaidd yn wythnos Gŵyl Gelfyddydau Aberhonddu a gynhaliwyd yn ystod wythnos hanner tymor mis Hydref, oedd cyfres o fyrddau gwag wedi'u gosod ar y reilins y tu allan i Eglwys y Santes Fair yng nghanol Aberhonddu. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ychwanegu eu celf, dwdls a meddyliau at y byrddau mewn ymateb i'r ŵyl . Roeddent mor boblogaidd nes bod y byrddau wedi'u llenwi'n gyflym ac yn ddiweddarach buont ar ddangos yn llyfrgell y dre.
Roedd grŵp o artistiaid yn Aberhonddu eisoes wedi bod wrthi'n marchnata'r dre fel canolfan i'r celfyddydau pan gyrhaeddodd COLLABOR8 yn 2009. Roedd y cyllid yn gadael i'r grŵp ehangu i gynnwys busnesau twristiaeth lleol yn ogystal ag artistiaid – cynhaliwyd arolwg a dau weithdy i bennu strategaeth farchnata i'r dre.
Arhosodd y ffocws ar gelf ond penderfynwyd ehangu ystod yr ŵyl i gynnwys dawns a cherddoriaeth. Bu COLLABOR8 yn cyllido cydgysylltydd a daeth yr Ŵyl yn Wythnos Gelfyddydau Aberhonddu yn 2010. Cydgysylltydd y digwyddiad oedd Julia Blazer, sy'n rheoli siop yn y dre. Yn ôl Julia: "Roedd yn ein galluogi i gynnal wythnos gyfan o gelfyddydau a fuasai'n hollol amhosibl heb gyllid ar gyfer swydd cydgysylltydd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf (2010), roedd yn ddigwyddiad llai ond roedd nifer yr artistiaid a oedd yn cymryd rhan wedi dyblu erbyn 2011. Buon ni hefyd yn denu cerddorion a dawnswyr."
Yn ei hail flwyddyn, roedd yr ŵyl yn cynnwys gweithdai gwydr lliw, arddangosiadau gwneud gemwaith, gweithdy canu clychau a cherddoriaeth fyw.
"Un o'n llwyddiannau mwya oedd cael busnesau lleol a wnelai ddim oll â chelf yn y gorffennol i ymwneud â'r ŵyl ," meddai Julia. "Roedd gynnon ni arwerthwyr tai, broceriaid yswiriant a chyfrifwyr yn cynnig gofodau arddangos i ni."
"Braf oedd gweld cynifer o artistiaid, cerddorion a dawnswyr yn ymuno â'r miri yn ogystal â busnesau lleol."

**Cynhelir Wythnos Gelfyddydau Aberhonddu yn ystod hanner tymor mis Hydref 2012.**
**www.artbeatbrecon.co.uk**



## Grŵp Cwm Tawe'n bondio

**Y grŵp yng Nghwm Tawe yw un o'r clystyrau lleiaf sy'n cael ei ariannu gan COLLABOR8 gyda thua 20 o aelodau gweithredol.**

Bu ymgynghorydd yn darparu cynllun gweithredu twristiaeth gynaliadwy i'r ardal dan nawdd COLLABOR8.
Nododd aelodau'r grŵp mynd i'r afael â'r diffyg arwyddion yn croesawu ymwelwyr i ddeupen y cwm fel un o'u blaenoriaethau. Cynlluniwyd logo ac is-bennawd bachog newydd gyda'r enw Cwm Tawe'n disodli'r *Upper Swansea Valley* – gan adlewyrchu naws dangnefeddus yr ardal.
Roedd yr is-bennawd, "Lle mae harddwch, chwedloniaeth ac antur yn cwrdd", yn cwmpasu gwahanol fusnesau'r ardal sy'n amrywio o gastell a pharc gwledig Craig-y-nos i ogofâu Dan-yr-Ogof ac o lety gwely a brecwast i ddarparwyr gweithgareddau awyr agored.
Cynlluniwyd taflenni'n rhestru darparwyr llety a gweithgareddau gyda map a thalwyd amdanynt â chymorth COLLABOR8 a chwblhawyd gwaith y grŵp hyd yn hyn gyda thaflenni ar gyfer chwe diwrnod gwych allan.

## Ailwampio'r wefan ar gyfer grŵp y tai bynciau

**Roedd gweithredwyr tai bynciau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn cydweithio fel grŵp am dros ddegawd pan gyrhaeddodd COLLABOR8.**

Ceir 23 o dai bynciau ym Mannau Brycheiniog sy'n aelodau o'r grŵp – yn cynrychioli cyfran helaeth o'r 33 o dai bynciau sydd yng Nghymru.
Roeddent yn gyfarwydd â chefnogi'i gilydd a'u marchnata eu hunain ar y cyd – ond yr hyn doedd ddim ganddynt oedd gwefan fodern.
Fel yr esboniodd Punch Maughan, sy'n rheoli byncws Ysgubor Glynmeddig, yn ogystal â bod yn brif weithredwr Twristiaeth Bannau Brycheiniog: "Roedd ein gwefan yn hen ffasiwn iawn ac roedd yn anodd i'w diweddaru. Bu COLLABOR8 yn ariannu gwefan newydd ac achubwyd ar y cyfle i ddiweddaru'r cynnwys. Erbyn hyn mae gynnon ni well presenoldeb ar y rhyngrwyd a gwell cynnwys ar ein gwefan."

**www.bootsbikesbunkhousesco.uk**

## Grŵp marchogaeth yn elwa ar gysylltiadau

**Ers amser maith mae marchogaeth yn un o'r gweithgareddau y mae pobl yn chwilio amdanynt pan fyddant yn dod i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

At ei gilydd mae'r busnesau yn y sector wedi'u hen sefydlu ac yn gyfarwydd â gweithio ar wahân i'w gilydd. Felly nid oedd dod at ei gilydd fel grŵp yn rhywbeth a ddaeth yn naturiol, esboniodd Cordelia Passmore sy'n rhedeg *Riding and Trekking* Llanddewi Nant Hodni.

"Fel busnesau rydyn ni i gyd yn cynnig rhywbeth gwahanol – rhai'n canolbwyntio ar wersi i ddechreuwyr, rhai'n gwneud teithiau merlota tywysedig ac eraill yn darparu ar gyfer marchogion profiadol."

"Oherwydd yr holl amrywiaeth doedden ni ddim o anghenraid o'r farn y gallen ni ein hyrwyddo ein hunain fel grŵp ond, a dweud y gwir, peth da yw'r amrywiaeth oherwydd ei fod yn golygu, rhyngddon ni, y gallwn ni ddarparu ar gyfer pob lefel o brofiad," meddai. Erbyn hyn, ar ôl mynychu cyfarfodydd grŵp rheolaidd gyda chwe aelod arall o'r grŵp, mae Cordelia'n gwybod i ba fusnes y dylai drosglwyddo ymholiadau os nad yw'n gallu darparu ar eu cyfer.

"Dydyn ni ddim yn cynnig gwersi fan hyn felly dw i'n eu pasio nhw ymlaen i *Golden Castle* neu'n achos rhywun sydd â phlant bach, dw i'n tueddu i gymeradwyo *Cantref*,' meddai. Yn ogystal â chyfnewid gwybodaeth, bu'r grŵp yn elwa ar daflen newydd am farchogaeth ym Mannau Brycheiniog a ariannwyd gan COLLABOR8, gwefan farchogaeth ar ei newydd wedd a baner naid i fynd â nhw i sioeau masnach a chanolfannau croeso.

Bu'r grŵp hefyd yn gweithio ar god ymddygiad i farchogion yn y Parc Cenedlaethol, gan ymdrin ag erydiad llwybrau - sy'n gallu bod yn fater digon dadleuol weithiau - â swyddogion hawliau tramwy. Erbyn hyn mae holl aelodau'r grŵp sy'n cael eu cynnwys ar y wefan wedi ymrwymo i'r cod. Yn olaf, ond nid yn lleiaf, bu COLLABOR8 yn cyllido hysbysebu ynghylch eu cynnig ar y cyd yn y cylchgrawn *British Horse* i'w helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach byth.

"Yn bendant, wrth hyrwyddo marchogaeth, grŵp mwy sy'n cynnig mwy o amrywiaeth sydd orau," meddai Cordelia. "Y nod yw denu pobl at farchogaeth, ni waeth beth yw eu gallu, yna dangos iddyn nhw y dewisiadau rydyn ni'n gallu eu cynnig."



## Grŵp Darparwyr Awyr Agored yn gweithredu ar y cyd

**Gyda 190 o aelodau, Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru yw un o'r clystyrau busnesau twristiaeth mwyaf yn y Parc Cenedlaethol.**

Cychwynnodd y grŵp, sydd hefyd yn cynnwys cwmnïau a leolir y tu allan i'r parc ar draws ardal eang yn ne Cymru yn 1990, gyda 24 o ddarparwyr yn unig.

Mae nifer y darparwyr wedi tyfu cymaint nes iddi ddod yn amlwg bod angen help ar ffurf cydgysylltydd cyflogedig i'r grŵp. Dyna pryd y camodd Gary Evans o'r darparydd hyfforddiant awyr agored, *Hawk Associates*, i'r adwy.

Gyda chyllid gan COLLABOR8, ymgymerodd â swyddogaeth cydgysylltydd y grŵp ym mis Gorffennaf 2010. "Gyda nifer y cwmnïau gweithgareddau awyr agored yn tyfu mor gyflym, roedd yn hollbwysig i ni – ac i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol – gael ffordd o siarad gydag un llais," meddai Gary. "Fel darparwyr gallwn gael ein pwynt drosodd oherwydd ein bod yn gryfach gyda'n gilydd, ac mae'r Awdurdod Parc yn gwybod at bwy y dylai ddod pan fydd e eisiau gael ei neges i nifer mawr o ddarparwyr.

Cydweithio mewn partneriaeth yw hi." Un mater sy'n codi'i ben bob blwyddyn i'r grŵp yw cytundebau mynediad – pan fydd grwpiau awyr agored eisiau defnyddio tir sy'n cael ei warchod neu sydd o dan gadwraeth.

Dim ond un o'r cytundebau a drafodwyd gan y grŵp er pan ddaeth Gary i'w rôl cyflogedig – a gefnogwyd yn gryf gan bwyllgor ymroddedig o wirfoddolwyr – oedd yn ymwneud â mynediad i Geunant Sychryd ar gyrion gorllewinol y Parc Cenedlaethol.

Y Comisiwn Coedwigaeth sy'n perchen ar y tir ac roedd pryderon bod grwpiau wrth gerdded y ceunant yn difrodi'r ecosystem fregus yno. Gan gydweithio â'r Comisiwn Coedwigaeth, dyma ni'n datblygu cod ymddygiad ar gyfer darparwyr ceunanta. Mae'r darparwyr yn deall beth sydd dan sylw bellach – oherwydd bod dŵr yn cael ei chwistrellu'n barhaus ar hyd glannau'r ceunant, mae rhai rhywogaethau mwsogl a llysiau'r afu prin yno.

"Yn ddiarwybod, roedd cerddwyr y ceunant yn sathru ar hyd y glannau, ond erbyn hyn, mae yna ganllaw clir ynglŷn â lle y cân nhw gerdded ac mae pawb yn hapus." Mae'r grŵp wrthi bellach yn trafod mynediad agored i gronfeydd dŵr a fu gynt ynghau yn yr ardal gyda help swyddog Prosiect Sblash yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

"Bellach mae'r grŵp wedi'i drefnu'n well o lawer ac mae pawb yn gwybod lle i ddod os oes problem ganddyn nhw. Rydym i gyd yn cydweithio i gael pobl i'r parc mewn unrhyw ffordd y gallwn ni."



# Gŵyl gerdded yn denu ymwelwyr newydd i'r Gelli Gandryll

**Mae'n deg dweud bod y Gelli Gandryll eisoes ar y llwybr twristaidd, diolch i ŵyl lenyddol flynyddol y dre. Ond sylweddolodd grŵp o berchenogion busnesau twristiaeth fod rhaid iddynt feddwl am ffyrdd o hyrwyddo'r dre y tu allan i dymor yr ŵyl lenyddol.**

Wedi'i ysgogi gan COLLABOR8, sefydlwyd Grŵp Twristiaeth y Gelli Gandryll yn 2009 yn unionswydd i'r perwyl hwn – gyda'r prosiect yn cynnig helpu i hybu twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.

Yn gyntaf, talodd COLLABOR8 am arolwg o ymwelwyr â'r dre. Datgelodd fod llawer ohonynt yn gerddwyr sy'n ei defnyddio fel canolfan i grwydro Bannau Brycheiniog. Bachodd y grŵp yn y syniad o hyrwyddo'r dre fel cyrchfan i gerddwyr. I gychwyn, gwnaethpwyd cais am achrediad 'Croeso i Gerddwyr' – dechreuodd arwyddion 'brecwastau cerddwyr' a 'croeso i esgidiau mwdlyd' ymddangos yn y dre. Nesa, aethon nhw ati gyda chynlluniau ychydig yn fwy uchelgeisiol – sef, creu gŵyl gerdded newydd.

"Ar ddiwedd 2008, daeth yn amlwg bod angen i ni ddenu gwahanol fathau o dwristiaid i'r Gelli," meddai Anna Heywood o *Drover Holidays* sydd â'u canolfan yn y Gelli. Mae hi hefyd yn un o aelodau sefydlu y Grŵp Twristiaeth.

"Byddwn ni'n cael ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn a dywedodd 90% o'r rheini a fu'n ymateb i'r arolwg pa mor bwysig oedd cerdded iddynt felly roedd gŵyl gerdded i'w gweld yn syniad delfrydol."

Cynhaliwyd yr ŵyl gyntaf ganddynt yn 2011 – gyda COLLABOR8 yn cyfrannu mewn ffordd amhrisiadwy trwy dalu am amser Anna fel cydgysylltydd rhan-amser i'r digwyddiad tridiau. "Mi ges i fy nghyflogi am hanner diwrnod yr wythnos yn ystod y chwe mis yn arwain at yr ŵyl. Heb hynny, buasai'n wirioneddol anodd rhoi cychwyn da i'r ŵyl." esboniodd Anna.

Bu cynifer o bobl yn mynychu'r digwyddiadau yn 2011 (roedd 23 o deithiau cerdded a digwyddiadau gyda'r nos) nes bod cynlluniau ar y gweill i ŵyl gerdded 2012 fod yn ddigwyddiad pum niwrnod. "Roedd pobl wrth eu boddau â'r ŵyl a denodd gyfran go lew o bobl leol hefyd," meddai Anna. "Mi wnes i arwain un daith a dywedodd un ddynes leol a oedd ar y daith wrtha i, 'Dw i mor falch i chi drefnu'r daith yma. Faswn i byth wedi bod â'r hyder i'w g'neud hi heb dywysydd."

Mae busnesau'r dre y tu ôl i'r digwyddiad i'r carn erbyn hyn a'r gobaith yw ei chael i dalu amdani ei hun. "Dyw hi heb ddod â busnes i ni'n uniongyrchol," meddai Anna. "Ond mae'r ffaith fy mod i wedi dod i nabod busnesau lleol drwy wirfoddoli'n golygu y gallwn ni basio ymholiadau ymlaen i'n gilydd. Dw i hefyd yn teimlo bod pobl yn amheus ynglŷn â chynnal gŵyl arall yn y Gelli ond erbyn hyn dw i'n teimlo ein bod wedi ennyn parch sefydliadau allweddol yn y dre, a dw i'n gweld dyfodol disglair i'r ŵyl."

## COLLABOR8

## Codau Ymarfer

**O dan COLLABOR8, mae clystyrau'n cytuno ar god ymarfer sy'n eu hymrwymo i amcanion cyffredin.**

Mae hyn yn clymu'r grŵp wrth ei gilydd ac yn helpu pawb i ddeall ei ddiben. Y prif briodweddau y sefydlwyd COLLABOR8 i'w hyrwyddo oedd cynaliadwyedd, ymdeimlad â lle ac ansawdd a bu'r clystyrau'n ymrwymo i weithio tuag at y nodau hynny. I fusnesau roedd hon yn ffordd naturiol o weithio – oni bai eich bod yn cytuno ar eich amcanion, fyddwch byth yn cyflawni dim byd.


## Gweithio'n drawswladol

**Prosiect trawswladol yw COLLABOR8 ac mae pawb wedi dysgu peth wmbreth gan yr wyth partner arall.**

Bu cyfanswm o 48 o bobl o Fannau Brycheiniog yn cymryd rhan mewn ymweliadau cyfnewid trawswladol – mae dysgu sut mae pobl eraill yn ymdrin â phroblemau bob amser yn rhan bwysig o gynhyrchu syniadau newydd. Nid yn unig hynny ond gallodd y Parc Cenedlaethol drosglwyddo syniadau twristiaeth werdd i dde Kerry yn Iwerddon a Pharc Cenedlaethol y South Downs.

Yn well byth, gallodd busnesau yn y Parc gyfnewid syniadau da ac arferion gorau gyda rhanbarthau tebyg eraill. "Mae Rhwydwaith Twristiaeth Werdd arloesol y South Downs wedi cael effaith sylweddol ar raglen Synnwyr Busnes Da y Parc Cenedlaethol ei hun," meddai Richard Tyler, Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. "Mae gweithio'n drawswladol wir yn llwyddo – llwyddiannau'r Parc fu llwyddiannau ein partneriaid ac maen nhw wedi dangos mai cydweithredu biau hi.






## Partneriaeth y Parc Cenedlaethol â Thwristiaeth Bannau Brycheiniog yn helpu i daenu'r gair dros COLLABOR8

**Chwe blynedd yn ôl nid oedd corff masnachol i fusnesau twristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

Hyd yn oed tair blynedd yn ôl, pan gyrhaeddodd cyllid COLLABOR8 am y tro cynta, digon bychan oedd grŵp y busnesau roedd Twristiaeth Bannau Brycheiniog (TBB) yn eu cynrychioli.

Ond mae'r hyn a gychwynnodd gyda 50 o aelodau a chydgysylltydd gwirfoddol wedi blaguro'n sefydliad sy'n cynrychioli 285 o fusnesau ac sy'n cael ei redeg gan staff cyflogedig. "Rydym wedi tyfu'n gyflymach gyflymach ac yn sicr mae COLLABOR8 wedi cyfrannu," meddai Punch Maughan, sydd bellach yn gyfarwyddwr gweithredol TBB a ariennir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Croeso Cymru, Cyngor Sir Powys a ffioedd aelodau.

"Pan gychwynnon ni roedd popeth yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr. Mae COLLABOR8 wedi talu am fy amser felly dw i wedi gallu mynychu llawer o gyfarfodydd y Parc Cenedlaethol ar ran aelodau. Mae hyn wedi golygu fel grŵp o fusnesau bod modd i ni gael mewnbwn i'r broses benderfynu fasai ddim gyda ni o'r blaen," meddai Punch, sydd hefyd yn rhedeg Ysgubor Glynmeddyg ger Pont Senni. Oherwydd bod COLLABOR8 wedi creu llawer o ddigwyddiadau newydd, mae gan TBB fwy i'w werthu hefyd," esboniodd Punch. "Boed Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri neu ŵyl gerdded ychwanegol yn y Gelli Gandryll, mae'n gwneud gwahaniaeth – mae i gyd yn cael ei ychwanegu at y cymysgedd," meddai Punch. Ond y prif fudd yw'r cynnydd yn y cydweithrediad rhwng busnesau. "Yn y gorffennol dw i'n meddwl ein bod ni i gyd braidd yn amheus o'n gilydd. Ond basai llai o lais gyda ni i gyd heb gydweithio," ychwanegodd.

**Cysylltwch â Punch Maughan yn TBB 01874 638835 neu e-bostiwch info@breconbeaconstourism.co.uk**

## Cinio Gweithiwr y Gamlas ar y fwydlen ar gyfer y pen blwydd

**Rydych wedi clywed am y Ploughman's Lunch bondigrybwyll – wel, dyma Ginio Gweithiwr y Gamlas sy'n dod i dafarnau yr holl ffordd ar hyd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu ym mlwyddyn ei deucanmlwyddiant.**

Dyma un o'r ffyrdd y mae clystyrau twristiaeth a'u busnesau ar hyd y gamlas yn cael eu hannog i'w marchnata eu hunain yn ystod dathliadau pen blwydd y gamlas yn 200 oed.

Fel rhan o'i rôl fel cydgysylltydd y gamlas, a gydariennir gan COLLABOR8 a Chyngor Sir Powys, mae Alison Crawshaw wedi trefnu dewis amrywiol o fwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol i'w gynnwys yng Nghinio Gweithiwr y Gamlas.

Ymhlith y dewisiadau ceir tri math o gwrw ar thema'r gamlas sydd wedi'u bragu gan *Brecon Brewing*, Caws Gweithiwr y Gamlas gan *Blaenafon Cheddar* a Siytni Cychwr Aberhonddu *Usk River*. Mae Alison wedi derbyn cyllid i helpu i gydlynu dathliadau'r gamlas ac uchafu eu heffaith ar fusnesau twristiaeth yn y flwyddyn sy'n arwain at fis Mehefin 2012. Mae hefyd wedi cynhyrchu cylchlythyr a thudalen Gweplyfr i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau. Gyda phwyslais ar gyhoeddusrwydd a chydlynu - mae gan Alison gefndir yn myd marchnata a threfnu gwyliau – mae'r rôl wedi'i gweld yn rhoi grwpiau lleol yn Nhal-y-bont, Llangynidr ac Aberhonddu ar ben ffordd wrth gynllunio eu dathliadau eu hunain. Mae hefyd wedi cydweithio â Chymdeithas Hanes Aberhonddu ar weithgareddau teuluol ar thema'r gamlas i hanner tymor yr haf.

**Am fwy o wybodaeth www.facebook.com/MonmouthshireAndBreconCanal**

## Contacts

**Richard Tyler**
Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620405
E-bost richard.tyler@breconbeacons.org

**Carol Williams**
Swyddog Ardal Twf Twristiaeth
01874 620478
E-bost carol.williams@breconbeacons.org

**Catrin Parish Marks**
Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620490

Mae'r cylchlythyr hwn yn derbyn cymhorthdal trwy COLLABOR8 – rhaglen Interreg IVB NWE a gydgyllidir gan Croeso Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, Cyngor Sir Powys a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

www.breconbeacons.org
www.visitbreconbeacons.com
www.cyclebreconbeacons.com
www.horseridingbreconbeacons.com
www.mtbbreconbeacons.com
www.businessinfobreconbeacons.com

**dylunio: touchdown 07973 711523**
**ffotograffiaeth: © Hawlfraint y Goron (2011) Croeso Cymru, Tom Hutton, Nick Jenkins, Nick Turner, Carol Williams, Nanette Hepburn, Dhinand Kleine.**



PARC CENEDLAETHOL
Bannau Brycheiniog
Lle i enaid gael llonydd